**COFNODION Y CYFARFOD**

**Dyddiad:** 4 Rhagfyr 2001
**Amser:** 9am
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Jonathan Morgan, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Peter Black, y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
John Grimes, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
(eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Uned Fusnes y Cynulliad
Adrian Green, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, YP/y Dirprwy Lywydd
Alun Jenkins, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol
(eitem 4 ar yr agenda)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Croesawodd y Dirprwy Lywydd Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes a oedd yn cynrychioli Andrew Davies, y Trefnydd, yn unol â Rheol Sefydlog 13.3. Croesawodd John Grimes hefyd a oedd yn dirprwyo ar ran Marie Knox.

## 2. Cofnodion cyfarfodydd blaenorol

**20 Tachwedd 2001 - BC339-01 (Terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Gan na chafwyd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**27 Tachwedd 2001 BC346-01 (Drafft)**

2.2 Cyflwynwyd fersiwn drafft o'r cofnodion i'r Pwyllgor. Awgrymwyd newid bach a gâi ei gynnwys yn y fersiwn terfynol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn Codi (27 Tachwedd - BC346-01)

3.1 **Paragraff 5.1** Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod y trefniadau ar gyfer toriadau 2002 wedi cael eu cyhoeddi. Dywedodd Peter Black ei fod wedi cael

ar ddeall mai Opsiwn 1 a gafodd ei gymeradwyo, sef tair wythnos o doriad dros y Nadolig. Dywedodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes mai dyna oedd y Trefnydd wedi'i ddeall hefyd. Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod rhai'n hoffi'r syniad o gael pedair wythnos o doriad dros gyfnod y Nadolig ond na ddaethpwyd i benderfyniad yn ystod y drafodaeth. Dywedodd Jocelyn Davies y byddai'n well ganddi bedair wythnos dros y Nadolig os nad oedd hynny'n achosi unrhyw anawsterau o ran cyflawni gwaith angenrheidiol. Cytunwyd gohirio unrhyw drafodaethau pellach ar y mater nes bod y Trefnydd yn bresennol.

3.2 **Paragraff 7.6** Dywedodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes nad oedd unrhyw gynlluniau ar y gweill i wneud datganiad ar bortffolio Economaidd y Cabinet. Dywedodd Marion Stapleton y byddai'r Trefnydd yn anfon llythyr at Jocelyn Davies ynghylch ei chais am ddadl ar is-ddeddfwriaeth ar faterion sydd wedi'u datganoli. Byddai'n anfon copi o'r llythyr at aelodau'r Pwyllgor.

**4. Is-ddeddfwriaeth**

4.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur BC348-01 oedd yn rhoi cyngor gan Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghylch sut i ymdrin â'r rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) (Cymru) 2002

4.2 Cymeradwyodd y Dirprwy Lywydd ansawdd yr arfarniad rheoliadol. Er hynny, dywedodd nad oedd yn glir o'r dudalen flaen pryd y gosodwyd y rheoliadau drafft ar y fewnrwyd, er ei fod wedi cael ar ddeall mai 22 Tachwedd oedd y dyddiad hwnnw. Dywedodd Alun Jenkins y byddai'r wybodaeth hon ar y dudalen flaen ddiwygiedig. Fel ymateb i gwestiwn oddi wrth y Dirprwy Lywydd dywedodd y byddai'r rhesymau pam na chafodd pwyllgorau pwnc gyfle i ystyried is-ddeddfwriaeth, a'r argymhellion ynghylch pu'n a oedd angen i bwyllgorau pwnc ystyried deddfwriaeth ar ôl iddynt gael eu hystyried gan y Pwyllgor Busnes, yn cael eu cynnwys ym mhob memorandwm esboniadol ar ôl y Nadolig.

4.3 Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon gyda'r cynnig i beidio ag anfon y rheoliadau drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylent ddilyn y weithdrefn gyflym. **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd wedi hynny nad oedd angen anfon y rheoliadau drafft at bwyllgor pwnc.**

4.4 Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod wedi cael cais i lofnodi dau orchymyn a wnaed o dan y Weithdrefn Weithredol. Gofynnodd pam bod y Weithdrefn hon wedi cael ei defnyddio ar gyfer y gorchmynion hyn. Yn achos y Rheoliadau Grant Mentrau Ffermydd a Grant Gwella Ffermydd (Cymru), a ddaeth i rym ar 30 Tachwedd 2001, roedd y Cabinet wedi cytuno i ddefnyddio'r Weithdrefn Weithredol mor bell yn ôl ag Ebrill 2001. Roedd hyn yn anghyson â diben y Weithdrefn Weithredol. Daeth y gorchymyn arall, Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cychwyn Rhif 1) (Cymru)

2001 i rym ar 3 Rhagfyr 2001. Dywedodd Marion Stapleton bod y Trefnydd, fel rheol, yn ysgrifennu at Reolwyr Busnes pan fyddai deddfwriaeth yn cael ei gwneud o dan y Weithdrefn Weithredol. Byddai'n gwneud hynny ar gyfer y gorchmynion hyn maes o law a byddai copi o'r llythyr yn mynd at y Dirprwy Lywydd.

**5. Cyngor i'r Cynulliad ar Weithdrefnau**

Dim

**6. Pwyllgorau**

- Amserlen ar gyfer Gwanwyn 2002 – Cais oddi wrth y Gweinidog dros Gyllid (BC354-01)

6.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur BC354-01. Ar 27 Tachwedd roedd y Pwyllgor wedi cytuno ar amserlen arfaethedig y pwyllgor ar gyfer gwanwyn 2002. Er hynny, roedd y Gweinidog dros Gyllid wedi gofyn am gael newid dyddiad cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, ar brynhawniau 30 Ionawr a 6 Mawrth, oherwydd byddai'n rhaid iddi gadeirio Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar fore'r ddau gyfarfod. Y dewisiadau eraill ar wahân i'r amserlen y cytunwyd arni fyddai cynnal cyfarfod ar gyfer pum pwyllgor pwnc y naill wythnos a dau bwyllgor pwnc y llall; neu symud y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ôl i brynhawn ddydd Iau.

6.2 Ar ôl ystyried y dewisiadau, cytunodd y Pwyllgor mai'r unig ffordd ymarferol o ateb cais y Gweinidog dros Gyllid fyddai symud y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ôl i brynhawn ddydd Iau. Cytunwyd gohirio gwneud penderfyniad tan yr wythnos nesaf i roi cyfle i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ymgynghori â'r Gweinidog dros Gyllid. **Gweithredu: Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.**

- Cais oddi wrth y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (BC349-01)

- Cais oddi wrth y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (BC350-01)

- Cais oddi wrth y Pwyllgor Datblygu Economaidd (BC351-01)

6.3 Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor bapurau BC349-01 i BC351-01 a oedd yn cynnig bod y cyfnodau a oedd wedi'u neilltuo er mwyn cynnal cyfarfodydd anffurfiol o bwyllgorau yn cael eu defnyddio i gynnal mwy o gyfarfodydd ffurfiol.

**7. Busnes ar y gweill**

**Busnes yr wythnos hon (BC352-01)**

7.1 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i bapur BC352-01, a oedd yn disgrifio gwaith y Cynulliad am yr wythnos.

7.2 Dywedodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes bod rhai newidiadau bach. Byddai’r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a’r Gymraeg yn gwneud datganiad ar "Strategaeth Ddiwylliant ar gyfer Cymru" y diwrnod hwnnw a’r Gweinidog dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn gwneud datganiad ddydd Iau 6 Rhagfyr ar "Ffermio i’r Dyfodol". Dywedodd y byddai’r cynnig i gymeradwyo’r Adroddiad Grant Arbennig rhif 9  Plant ar eu Pennau eu Hunain sy’n Ceisio Lloches a drefnwyd ar gyfer 6 Rhagfyr yn awr yn cael ei gymryd ddydd Mawrth 8 Ionawr.

7.3 Dywedodd Jonathan Morgan y byddai’n hoffi gohirio’r drafodaeth ar God Gweinidogion y Cynulliad, a oedd i fod y prynhawn hwnnw, am wythnos. Roedd y Swyddfa Gyflwyno wedi’i hysbysu na allai gyflwyno gwelliannau i’r ddogfen ei hun ac roedd am gael amser i gyflwyno gwelliannau eraill. Dywedodd Paul Silk fod y Cod wedi ei gyflwyno i’r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 2.7, ac felly’r unig beth y gallai Aelodau’i wneud oedd ei gymeradwyo neu beidio. Dywedodd Jonathan Morgan ei fod ar ddeall nad oedd modd cyflwyno gwelliannau i’r Cod o dan Reol Sefydlog 2.7. Teimlai fod hyn yn golygu bod Rheol Sefydlog 2.7 yn ddiffygiol gan y dylai Aelodau gael cyfle i wneud mwy na dim ond rhoi sêl eu bendith ar y ddogfen. Er mai fersiwn diwygiedig o ddogfen a oedd yn bodoli’n barod oedd y Cod, meddai Jocelyn Davies, roedd hi’n anffodus nad ymgynghorwyd â phawb. Os nad oedd Aelodau’n fodlon ag unrhyw agwedd ar y Cod, yna’u hunig ddewis oedd pleidleisio yn ei erbyn yn hytrach na cheisio’i ddiwygio. Dywedodd y Dirprwy Lywydd bod modd i Aelodau yn Nhy’r Cyffredin gyflwyno gwelliannau rhesymol o dan amgylchiadau arbennig a oedd yn caniatáu iddynt gofnodi’u rhesymau dros beidio a chymeradwyo cynnig.

7.4 Dywedodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes na fyddai’n bosibl gohirio’r ddadl. Dywedodd ei bod hi’n bwysig cofio bod Cod Gweinidogion y Cynulliad yn pennu egwyddorion pwysig, y cytunodd pob aelod o’r Cabinet eu dilyn. Teimlai’r Cabinet ei bod hi’n bwysig bod Aelodau’r Cynulliad yn cael eu Cod eu hunain er mwyn cydfynd â’r arferion a fabwysiadwyd yn rhannau eraill o’r DU. Cafodd y Cod ei baratoi gan Brif Weinidog Cymru ac aelodau eraill o’r Cabinet a chroesewir unrhyw awgrymiadau ar gyfer eu hadolygu yn y dyfodol.

**Datganiad Busnes Drafft (BC353-01)**

7.5 Bu’r Pwyllgor yn ystyried Datganiad Busnes Drafft (BC353-01).

7.6 Dywedodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes bod tri newid bach i’r Datganiad Busnes Drafft. Ni fyddai datganiadau yn awr ar “Y Grant Trafnidiaeth” na “Chaledi Myfyrwyr” ddydd Mawrth 8 Ionawr 2002; byddent yn cael eu gwneud rywbryd yn y dyfodol. Byddai’r ddadl ar yr Adolygiad o Addysg Uwch a drefnwyd ar gyfer dydd Iau 17 Ionawr yn cael ei symud i 22 Ionawr 2002.

7.7 Cyngor y Pwyllgor i’r Trefnydd ar ei ddatganiad arfaethedig ar drefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnos yn dechrau ddydd Mawrth 11 Rhagfyr, dydd Mawrth 8 Ionawr 2002 a dydd Mawrth 15 Ionawr 2002, oedd y dylai fynd yn ei flaen fel yr amlinellwyd.

**8. Materion a gyfeiriwyd o'r cyfarfod llawn**

**9.  Diwygio Rheolau Sefydlog**

**10. Dyfarniadau'r Llywydd**

**11. Unrhyw fater arall**

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**